**Atodiad 1**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

## Dadansoddi Ymgynghoriad

## Eich Gwasanaeth Chi Eich Dewisiadau Chi

## 2015

# Cynnwys


| | | Rhif |
|---|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | ............................................................ | 2 |
| Cyflwyniad | ............................................................ | 3 |
| Cyfradd Ymateb a Demograffeg | ............................................................ | 3 |
| Amcanion Gwella | ............................................................ | 8 |
| Amcan Drafft 1 | ............................................................ | 8 |
| Amcan Drafft 2 | ............................................................ | 9 |
| Amcan Drafft 3 | ............................................................ | 10 |
| Amcan Drafft 4 | ............................................................ | 11 |
| Casgliadau ac Argymhellion | ............................................................ | 11 |
| Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig | ............................................................ | 12 |

## Crynodeb Gweithredol

Yn hydref 2015 fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r enw *'Sut i gynnal Gwasanaethau Tân ac Achub rhagorol, fforddiadwy yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 a thu hwnt'*. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd pawb a oedd a diddordeb i roi eu barn ynglŷn â sut y dylid datblygu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru yn y blynyddoedd nesaf. Gofynnwyd i bobl ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r post, e-bost a thrwy holiadur ar-lein.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11eg Rhagfyr 2015, ac mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr ymatebion a roddwyd yn y tri chyfrwng.

Yn gyntaf, dyma ddadansoddiad o'r ymatebion drwy'r holiadur ar-lein:

- Ymatebodd cyfanswm o 180 o bobl drwy'r holiadur ar-lein, ond tynnodd llawer o bobl allan yn ystod y broses, felly mewn gwirionedd roedd y gyfradd ymateb yn nes at 150 o bobl.
- Roedd cyfansoddiad demograffig yr ymatebwyr yn eithaf cymysg, gyda rhai agweddau tra amrywiol (e.e. oedran, crefydd) a rhai eraill gydag un categori blaenllaw (e.e. cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd).
- Amcan Drafft Un *(Parhau i helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi)* – canfu'r arolwg fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r amcan hwn.
- Amcan Drafft Dau *(Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog)* – canfu'r arolwg fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r amcan.
- Amcan Drafft Tri *(Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn cyflwyno dull newydd o gynllunio i sicrhau bod gennym o leiaf 20 criw tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch)* - canfu'r arolwg fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r amcan, ond mynegwyd safbwyntiau gwahanol ynglŷn â nifer y gorsafoedd a'r criwiau a fydd yn ddigon i ateb y galw.
- Amcan Drafft Pedwar *(Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn y mae diffoddwyr tân yn ei wneud i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru)* – canfu'r arolwg fod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r amcan.

Yn ogystal â chanlyniadau'r holiadur ar-lein, derbyniodd yr Awdurdod naw o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad drwy e-bost a'r post. Daeth un o'r rhain gan aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar dudalennau 12-14 o'r adroddiad hwn.

I gloi, mae'r adroddiad hwn yn canfod bod y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r amcanion drafft a amlinellir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cyflwyniad

Fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus am y Gwasanaethau Tân ac Achub a ddarperir yng Ngogledd Cymru o'r enw '*Sut i gynnal Gwasanaethau Tân ac Achub rhagorol, fforddiadwy yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 a thu hwnt*'.

Gwahoddwyd pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy amrywiaeth o ddulliau, a'r prif ddull oedd drwy holiadur ar-lein. Cafodd yr ymgynghoriad ei gefnogi gan y cyfryngau cymdeithasol, yn arbennig Facebook, Twitter ac YouTube. Roedd negeseuon a fideos (yn Gymraeg ac yn Saesneg) yn amlinellu'r prif heriau a newidiadau sy'n wynebu'r Awdurdod. Ceir dadansoddiad byr isod o'r rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Edrychwyd ar y fideos ar YouTube 246 o weithiau (57 yn Gymraeg a 189 yn Saesneg)
- Cyrhaeddodd negeseuon Facebook gyfanswm o 33,925 o gyfrifon (19,721 yn Gymraeg ac 14,204 yn Saesneg), a chliciodd 500 ar y neges i ddarllen mwy (211 yn Gymraeg a 289 yn Saesneg) a chliciodd 196 ar 'hoffi', 'sylw' neu 'rannu' (107 yn Gymraeg ac 89 yn Saesneg)
- Gwelwyd negeseuon Twitter gan gyfanswm o 25,586 o gyfrifon (11,656 yn Gymraeg ac 13,930 yn Saesneg) a rhyngweithiodd 210 o'r cyfrifon â'r negeseuon (29 yn Gymraeg a 181 yn Saesneg)

  *Cafwyd yr ystadegau cyfryngau cymdeithasol ar 30/12/2015*

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 11eg Rhagfyr 2015, ac mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r data a gasglwyd drwy'r holiadur ar-lein ac unrhyw ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law (drwy e-bost a'r post). Mae'r adroddiad yn dechrau drwy edrych ar gyfradd ymateb a demograffeg y bobl a gymerodd ran. Yna, mae'n mynd ymlaen i ddadansoddi'r pedwar amcan, gan gloi gyda chrynodeb o'r prif themâu a ganfuwyd mewn ymatebion ysgrifenedig.

## Cyfradd Ymateb a Demograffeg


### Cyfradd Ymateb

Ymatebodd cyfanswm 180 o bobl drwy'r holiadur ar-lein; ond gostyngodd y gyfradd ymateb wrth i bobl fynd drwy'r arolwg. Erbyn y cwestiwn demograffig cyntaf, roedd nifer yr ymatebwyr wedi gostwng i 140. Felly, ar gyfer pob siart y cyfeirir atynt isod, nodir nifer yr ymatebwyr i bob cwestiwn.

### Iaith

O'r 180 o bobl a ymatebodd, fe wnaeth 13.3% ohonynt drwy gyfrwng y Gymraeg. A gwnaeth 86.7% ohonynt drwy gyfrwng y Saesneg.


**Siart 1 – Graff i ddangos y math o ymateb yn ôl iaith (%) (n=180)**



**Oedran**

O ran oedran, roedd ymrwymiad pendant gan bobl rhwng 25 a 64 mlwydd oed, ond prin oedd y gynrychiolaeth ymhlith rhai 24 mlwydd oed ac iau nac ymhlith rhai 65 mlwydd oed a throsodd. Y segment a oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf oedd pobl 45-54 mlwydd oed, sef 26.4% o'r ymatebion.

**Siart 2 – Graff i ddangos y math o ymateb yn ôl oed (%) (n=140)**





**Rhyw, Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol**

Rhyw

Pan ofynnwyd i'r ymateb ynglŷn â'u Rhyw, roedd rhaniad - 57.9% yn Ddynion a 36.4% yn Ferched (yn ogystal â 5.7% yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud).


**Siart 3 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Rhyw (%) (n=140)**



Rhywedd

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am eu Rhywedd, roedd rhaniad - 55.6% yn Ddynion a 34.8% yn Ferched (yn ogystal â 9.6% yr oedd yn well ganddynt beidio â dweud).


**Siart 4 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Rhywedd (%) (n=135)**




Cyfeiriadedd Rhywiol

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am eu Cyfeiriadedd Rhywiol, roedd y mwyafrif helaeth (83.0%) yn ymateb gyda 'Heterorywiol/Strêt'. Roedd yr 17% arall wedi'u rhannu rhwng 'Hoyw/Lesbiaidd' (2.2%), 'Deurywiol' (0.7% a 'Gwell gennyf beidio â dweud' (14.1%).


**Siart 5 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol (%) (n=135)**



**Ethnigrwydd**

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyd am eu Hethnigrwydd, ymatebodd 49.3% gyda 'Cymreig', tra dywedodd 22.1% 'Seisnig' a 23.5% 'Prydeinig'. Roedd y 5.1% arall yn dweud 'Gwyddelig' (1.5%), Unrhyw gefndir Gwyn arall' (1.5%), 'Affricanaidd' (0.7%), 'Latfiaidd' (0.7%) a 'Grŵp Ethnig Arall' (0.7%).

Siart 6 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Ethnigrwydd (n=136)





**Nodweddion Eraill**

Anableddau

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt anabledd, ymatebodd 80.1% gan ddweud 'Na' a dywedodd12.5% o'r ymatebwyr 'Oes'. Hefyd, dewisodd 7.4% o'r ymatebwyr 'Gwell gennyf beidio â dweud'.


Siart 7 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Anabledd (%) (n=136)



Crefydd

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am eu Crefydd, atebodd 58.5% drwy ddweud 'Cristion (pob enwad)', dywedodd 30.4% nad oedd ganddynt 'Ddim Crefydd' a 8.9% a 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Roedd y 2.2% arall yn 'Baganaidd' (1.5%) a 'Bwdhistaidd' (0.7%).

**Siart 8 – Graff i ddangos rhaniad y math o ymateb yn ôl Crefydd (%) (n=135)**



## Amcanion Gwella

Gofynnwyd i'r ymatebwyd ddarllen Amcanion Gwella'r Awdurdod a dewis un o'r atebion gosodedig.

**Amcan Drafft 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.**


*Cwestiwn. Ydych chi'n cytuno y dylem gadw atal marwolaethau ac anafiadau mewn cartrefi fel prif amcan inni?*

*Ydw, mae'n gyfrifoldeb ar y gwasanaeth tân ac achub i atal marwolaethau ac anafiadau mewn cartrefi, ac mae'n gwneud synnwyr iddynt wneud hynny.*

*Na, ni ddylem ddisgwyl i'r gwasanaeth tân ac achub boeni am ddiogelwch pobl pan fyddant yn eu cartrefi eu hunain.*

Yn yr holiadur ar-lein, dewisodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr 'Ydw' mewn perthynas ag Amcan Drafft Un (92.2%). Dim ond 7.8% a ddewisodd 'Na', gan ddangos ffafriaeth gref i'r canfyddiad mai *'ie, cyfrifoldeb y gwasanaeth tân ac achub yw atal marwolaethau ac anafiadau mewn cartrefi, ac mae'n gwneud synnwyr iddynt wneud hynny.'*

**Siart 9 – Graff i ddangos y math o ymateb i Amcan Drafft Un (%) (n=180)**



**Amcan Drafft 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle mae rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.**


*Cwestiwn. Ydych chi'n cytuno y dylem geisio rhewi'r swm rydym yn gofyn amdano gan y cyngor sir yn y dull hwn?*

*Ydw, mae'n iawn y dylai'r Awdurdod Tân ac Achub barhau i chwarae ei ran wrth leihau'r baich ariannol ar y cynghorau sir.*

*Na, dylai'r cynghorau sir wario mwy ar y gwasanaethau tân ac achub a llai ar wasanaethau eraill. Mae'r Awdurdod Tân eisoes wedi torri ei gostau ac mae'n afrealistig disgwyl iddo barhau i rewi ei gyllideb tan ddiwedd y degawd hwn.*

Yn yr holiadur, fe wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddewis 'Ydw' mewn perthynas ag Amcan Drafft Dau (60.1%). Fe wnaeth y 38.9% arall ddewis 'Na', gan ddangos ffafriaeth fach at y canfyddiad 'Ie, mae'n iawn y dylai'r Awdurdod Tân ac Achub barhau i chwarae ei ran wrth leihau'r baich ariannol ar y cynghorau sir.

**Siart 10 – Graff i ddangos y math o ymateb i Amcan Drafft Dau (%) (n=158)**



**Amcan Drafft 3 – Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn cyflwyno dull newydd o gynllunio i sicrhau bod gennym o leiaf 20 criw tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.**

*Cwestiwn. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i newid sut rydym yn trefnu ein criwiau tân?*


*Ydw, ac mae 20 a 38 criw tân yn ymddangos fel lefel dda o welliant.*

*Ydw, ond nid yw 20 a 38 criw tân yn swnio'n ddigon.*

*Na, dylech adael pethau fel y maent ond cynyddu nifer y criwiau tân sydd ar gael trwy gyflogi mwy o ddiffoddwyr tân.*

Yn yr holiadur, fe wnaeth bron i hanner yr ymatebwyr ddewis 'Ydw – Lefel dda o welliant' ar gyfer Amcan Drafft Tri (48.7%). Roedd y 51.3% arall wedi rhannu rhwng 'Ydw – Ond dim digon' (28.3%) a 'Na – Gadael pethau fel y maent a recriwtio mwy o Ddiffoddwyr Tân' (23.0%). Mae hyn yn dangos bod y mwyafrif helaeth yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig (77.0%), ond mae gwahaniaeth barn a yw 20 o Orsafoedd Tân a 38 o Griwiau Tân yn ddigon.

Siart 11 – Graff i ddangos y math o ymateb i Amcan Drafft Tri (%) (n=152)



**Amcan Drafft 4 – Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn mae diffoddwyr tân yn ei wneud i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.**


*Cwestiwn. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i ystyried pa wasanaethau eraill y medrwn eu cynnig?*

*Ydw, ar adegau pan fo gwasanaethau cyhoeddus dan straen, ymddengys mai dyma'r peth iawn i'w wneud.*

*Na, dylech wneud yr hyn sy'n ofynnol dan y gyfraith, ond dim byd arall.*

Yn yr holiadur, roedd y mwyafrif helaeth wedi dewis 'Ydw' ar gyfer Amcan Drafft Pedwar (83.7%). Fe wnaeth yr 16.3% arall ddewis 'Na', gan ddangos mymryn o ffafriaeth at y canfyddiad '*ie, ar adegau pan fo gwasanaethau cyhoeddus dan straen, ymddengys mai dyma'r peth iawn i'w wneud.*'

**Siart 12 – Graff i ddangos y math o ymateb i Amcan Drafft Pedwar (%) (n=147)**




## Casgliadau ac Argymhellion

I grynhoi, canfu'r ymgynghoriad fod y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd yn cytuno â'r amcanion a gynigiwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig

| *Tarddiad yr Ymateb* | ***Amcan Drafft 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.*** | ***Amcan Drafft 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.*** | ***Amcan Drafft 3 – Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn cyflwyno ffordd newydd o gynllunio er mwyn sicrhau bod gennym o leiaf 20 criw tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.*** | ***Amcan Drafft 4 – Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn mae diffoddwyr tân yn ei wneud a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.*** | ***Cyffredinol*** |
|---|---|---|---|---|---|
| *1* | Cytuno | Cytuno | Cytuno | Diddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am y "gweithredoedd, y gwasanaethau a'r adnoddau sydd gennych wedi'u cynllunio er mwyn helpu i symud ymlaen ag Amcan 4"<br><br>Awyddus i ystyried cyfleoedd i weithio ar y cyd â'r GTA, e.e. Digwyddiadau Cymunedol neu ymgyrchoedd targedu. | - |
| *2* | - | - | - | - | Mynegwyd y pwyntiau a ganlyn:<br><br>"• Pryder amlwg os – fel yr ymddengys – y bydd y cynigion hyn yn arwain at golli cyflogaeth. Rhaid i les gweithwyr fod yn ffactor bob amser wrth ystyried materion o'r fath, ac rydym yn sicr fod hon yn agwedd a gaiff ei hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau.<br><br>• Gwnaethpwyd y pwynt gan un o'n haelodau mai'r sefyllfa, yn ei phrofiad hi, oedd mai gwybodaeth leol y dyn tân o'r system ar gael yn ôl y galw a fu'n hanfodol wrth fynd at dân gwledig." |
| *3* | - | - | - | - | Rhai problemau wrth fynd at y fersiwn Saesneg o'r arolwg.<br><br>Wedi dweud 'fy marn bersonol i yw y dylech chi, yr arbenigwyr, gael penderfynu sut i reoli'r gwasanaeth hanfodol hwn orau o fewn ei gyfyngiadau ariannol." |
| *4* | - | - | Darn: "mynegwyd pryder nad oedd sicrwydd y byddai timau ymateb ar gael ymhob sefyllfa. Ond, roedd yr aelodau'n realistig nad oedd dewis arall yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni." | - | - |

| *Tarddiad yr Ymateb* | ***Amcan Drafft 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.*** | ***Amcan Drafft 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.*** | ***Amcan Drafft 3 – Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn cyflwyno ffordd newydd o gynllunio er mwyn sicrhau bod gennym o leiaf 20 criw tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.*** | ***Amcan Drafft 4 – Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn mae diffoddwyr tân yn ei wneud a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.*** | ***Cyffredinol*** |
|---|---|---|---|---|---|
| *5* | Cytuno â'r amcan – Tynnu sylw "ein staff Pwynt Mynediad unigol (sy'n gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd a staff y sector gwirfoddol i gynorthwyo pobl i gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol) fod archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a'r adnoddau diogelwch tân cysylltiedig ar gael gan y Gwasanaeth Tân ac Achub." | Cytuno â'r amcan – I'w nodi: "Bydd gwybod bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhewi ei gyllideb am y tair blynedd nesaf yn gymorth i ni fel awdurdod lleol wrth inni gynllunio'n ariannol ar gyfer yr un cyfnod." | Cefnogi'r amcan - "ar y sail y bydd yn cael ei gynllunio'n fanwl gywir a'r risg yn cael ei asesu".<br><br>Pwysleisio'r "angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub sicrhau digon o ofal brys sy'n ddiogel ac yn ddigonol ar gyfer ardaloedd gwledig yn ogystal â rhai trefol". | Cefnogi'r amcan – cefnogi cydweithio ac arallgyfeirio'r GTA. | - |
| *6* | - | - | - | - | Canmol y ffordd y cynhaliwyd y broses ymgynghori.<br>Cytuno'n llwyr â'r pedwar drafft – nodi y bydd yn ceisio cael trafodaethau yn y gwahanol fforymau y mae ganddo lais arnynt. |
| *7* | - | - | - | - | Mynegi "pwysigrwydd cadw gorsaf dân Abersoch" |
| *8* | Cytuno | Cytuno | Cytuno â'r amcan - - ond peth pryder "bod nifer diffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw yn annigonol, ac y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân lleol". | Cytuno | - |

| *Tarddiad yr Ymateb* | *Amcan Drafft 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi.* | *Amcan Drafft 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.* | *Amcan Drafft 3 – Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn cyflwyno ffordd newydd o gynllunio er mwyn sicrhau bod gennym o leiaf 20 criw tân wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.* | *Amcan Drafft 4 – Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn mae diffoddwyr tân yn ei wneud a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.* | *Cyffredinol* |
|---|---|---|---|---|---|
| *9* | Cytuno | Cytuno | Mynegi rhywfaint o bryder am "argaeledd swyddogion tân ar yr ynys (h.y. Ynys Môn)".<br><br>Dweud "bu nifer o adegau'n ddiweddar pryd yr amlygwyd y straen sydd ar allu'r Gwasanaeth i ddarparu digon o ddarpariaeth".<br><br>I ymateb i gwestiwn yr ymgynghoriad yn benodol, fe wnaethant ddweud bod "rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â lefel y gofal fel isafswm, a sicrhau ei fod ar gael bob amser."<br><br>Wedi awgrymu y byddai 'canolbwyntio ar y 'lleol' yn ddefnyddiol wrth recriwtio diffoddwyr tân i'r system ar gael yn ôl y galw, e.e. ymunwch i ddiogelu eich tref/pentref chi.' | Cytuno | - |